# “Ei Gyfiawnder Ef”

EISTEDDFOD WLADFA 1924

Cystadlauaeth “Rhif I”
Ffugenu “Pererin”

# "Ei Gyfiawnder Ef."

## RHAN I.

Camrau cyntaf. Castell ar y bryn. Brwydrau'r castell afiaeth y buddugoliaethau. Genedigaeth enaid. Cestyll newydd. Addysg yn addaw y pethau hyn. Dinas a methiant. Dychwelyd i gastell bore oes. Ymson enaid methedig. "Canys nid yr hyn yr wyf yn ei ewyllysio yr wyf yn ei wneuthur." Temtasiwn yn codi o'r is-ymwybyddiaeth. "Y cledd" yn addaw "yr holl bethau hyn."

## RHAN II.

Dychwel o'r rhyfel. Castell y bryn yn aros, a'r castelli awyrol heb eu sylweddoli. Ysbryd y castell. Aneffeithiolrwydd y pethau hyn heb "Ei gyfiawnder Ef."

Gweledigaeth a iachad.

## RHAN III.

Terfyn oes. Profiad newydd. Y cestyll fu. Y cestyll bery byth. "Ti wyt fy nghraig a'm castell." Sylweddoli'r oll trwy rin "Ei gyfiawnder Ef."

—o—

# "EI GYFIAWNDER EF."

Mewn cornel glyd hen gastell mawr ei fri,
Eisteddwn ar brynhawnddydd tirion haf;
Ymruai brwydr yn fy mynwes i,
A'i ffyrnig nwyd yn clwyfo'm henaid claf.

Aeth heibio oriau mel y chwarae llon,
A brwydrau maboed ar y bryniau ban,
Pan ruthrai arfog luoedd plant y Fron
Gan drechu rhengau glewion plant y Llan.

Aeth heibio'r miri iach a'r llawen stwr
A'r chwerthin nwyfus fu yn rwygo'r nen,
Pan ddringai'r llu buddugol ben y twr
Gan chwifio'n herllyd eu cleddyfau pren.

Bu'r castell filwaith yn ein meddiant ni,
A byddin plant y Llan i gyd ar ffô,
Gorchfygwyr oeddym arwyr mawr eu bri
A thestun siarad holl gartrefi'r fro.

Darfyddodd swyn y ffugryfeloedd hyn,
Dihunodd enaid yn fy mynwes i,
Nid digon bellach "gastell ar y bryn,"
Na gwag rialtwch fy nghymdeithion ffri.

Gadewais lwybrau gwynion maboed llon,
A chestyll newydd yn fy ieuanc fryd,
Fe ganai clychau gobaith dan fy mron,
Ac anian oll yn datgan "gwyn dy fyd."

Ehedodd deuddeg mlynedd dros fy mhen,
'Roedd egin aflanfywyd yn fy ngwaed,
'Roedd cysgod muriau'r, castell uwch fy mhen,
A breuddwyd mam yn ddrylliau tan fy nhraed.

'Roedd llyw fy enaid eisoes wedi mynd
  Yn ddrylliau ar fy nghyntaf fordaith fer,
Fe deimlwn aeth unigrwydd y di-ffrynd,
  A loesion uffern a'i gwatwarol hér.

Druanaf ddyn ! fy enaid yn dymuno gwawr
  A'm llygaid fyth yn edrych tua'r nos,
Fy mryd ar ddringo y mynyddoedd mawr,
  A'm traed yn glynu'n nhom a llaid y ffos.

Fy neall fyth yn gwadu medr byd
  I estyn imi y dedwyddwch gwell
Ond breichiau serch a'i cofl er hyn i gyd
  A'm delfryd wywai ar y ffiniau pell.

Fy reswm yn cyhoeddi aur yn dom,
  Ond bysedd cybydd beunydd fynnai drin,
Aur ! aur ! oedd cri fy nghalon lom,
  Tra'm henaid carpiog allan yn y drin.

Cydwybod fyth yn son am "deyrnas Dduw'
  Fy nwydau dan lywodraeth pechod trist,
Addolwn ryddid, minnau'n gaeth a gwyw
  Heb brofi rhyddid gogoneddus Crist.

Fy marn yn mynnu dewis Llwybrau Duw
  Fy serch ar foelion lewyrch cibau moch,
Fy ysbryd am ffynhonnau'r dyfroedd byw,
  A'm blys yn estyn am y gwinoedd coch.

Fy enaid am gael profi gwleddoedd gras,
  Hiraethwn beunydd am y nefol hedd,
Yr hedd dawelai ru pechodau cas,
  Ond yn fy llaw disgleiriai gloew gledd !

O gilfach ymwybyddiaeth, brwydrau'r bryn
Ymgodent megis panorama gain,
Gan ganu, "cledd" "y cledd" a "chastell gwyn"
A dryswyd f'enaid gan eu hudol sain.

Y cledd, y cledd, oedd f'unig obaith mwy,
Fe welwn gastell yn y waedlyd ffos,
"Trwy rym y cledd," medd f'enaid dan ei glwy,
"Caf gyrraedd gwawr hyd lwybrau'r ing a'r nos."

"Wrth drin y cledd caf fri a chlod
A phob anrhydedd sydd yn bod,
Caf weled y gwerinoedd blin
O flaen fy mainc yn plygu glin ;
Dylifa'r aur i'm coffrau'n lli
Yr aur wna brynu'm rhyddid i."

"A'r allwedd aur, caf agor pyrth
Pob breinteb fedd y byd. A syrth
Cewri anhawsterau o fy mlaen
Fel dail yr Hydref, ac fe daen
Y dyrfa balmwydd ar fy ffyrdd ;
Caf wisgo y llawryfon gwyrdd,
A byw wrth fyrddau meibion ffawd
O swn griddfannau'm brodyr tlawd."

"Caf adael cartre'r griddiau llaith
Ac oriau blin y caled waith,
Caf ganu'n iach i'r nos dihun
Pan ddawnsia pryder hagr ei lun
O flaen fy meddwl, gadael dydd
O syn fyfyrio am a fydd,
Am nos o dangnef ac am ddydd
Heb rychau pryder ar fy ngrudd."

"Caf adael gofid o fy ol,
Ymhell bydd rhu yr oehain ffol;
Syrffedais ar y cwyn didaw
A'r rhincian pruddglwyf ar bob llaw;
Ni fyddaf dyst o'r arw loes
Adawodd trais ar ael yr oes;
"A fu," fydd dyddiau chwerw siom
A swn curiadau calon drom."

"Caf eto weld fy nghastell gwyn
A chipio'r bri ar gopa'r bryn;
Caf ddringo crib y mynydd mawr
A gweled holl deyrnasoed llawr;
Eu rhwysg a'u holl ogoniant hwy
A fydd yn eiddo imi mwy;
Angylion cyfoeth teg eu pryd
I weini arnaf gaf o hyd;
Tywysant fi heb unrhyw loes
Trwy greigiog ffyrdd problemau'r oes;
Cysgodant fi a'u hedyn aur
Pan gryn y bydoedd yn y pair;
Pan gwymp gorseddau mawr eu bri,
Diogel fydd fy ngorsedd i.
A phan ddaw angeu brenin braw
Ymafla engyl yn fy llaw;
Pan bydra'm corff ym mhruddell bedd
Bydd f'enaid draw ymroydd hedd."

II

Darfu yr heldrin arw
'Rwyf finnau yn brudd a syn,
Yn arllwys gofidiau fy enaid blin
Ar lwybrau fy maboed gwyn.

Erys y coedydd talgryf,
Gan herio'r ffyrnicaf wynt,
Tangnefedd sy'n frenin y dolydd glas
Fel yn y dyddiau gynt.

Acw mae'r cartref diddan,
Coleg boreuddydd oes,
Yno bu farw'r dirionaf fam
Tra'n canu am "waed y groes."

Acw mae caerau'r castell,
Hynod dy hanes di!
Sefi'n ddiysgog trwy'r blwyddi maith
Ond ple mae fy nghestyll i?

Hanner fy nyddiau aeth heibio,
Enillais anrhydedd a bri,
Ond llwm yw fy enaid o dan y clod
A thlawd yw fy ysbryd i!

Dringaf at furiau'r castell
Mae ysbryd o'i fewn yn byw,
A cheisiaf ganddo yr olew drud
I wella fy nghalon friw.

Cofiaf ei glywed yn siarad
Pan oeddwn yn blentyn bach,
Yn chwarae'n ddibryder ar ben y twr
Yn su yr awelon iach.

Cyrhaeddais at droed y castell
Hyd lwybrau o fythol swyn,
Caf yma gysgod y muriau cryf
Tra'm henaid edrydd ei gwyn.

"O ysbryd tirion y castell
Ti gofi'r diddanwch drud,
Fu'n llenwi fy nghalon ddiniwed gynt
Cyn gadael dy gysged clyd;

"Ti gofi freuddwydion rhiaint,
A'm cestyll delfrydol i,
Cyn troedio heolydd y ddinas fawr
A syrthio i'r aflan li.

"'Rol casglu gwybodaeth eang,
A chipio llawryfon diri,
'Rol deuddeg mlynedd hyd lwybrau dysg,
Ti gofi'm cyfyngder i.

"Yma, mewn gwarth a methiant,
Yn estron i hoen a hedd,
Ail geisiais gyrhaeddyd fy nghestyll gwiw
Hyd lwybrau y gwaedlyd gledd.

"O ysbryd tirion y castell
Dychwelaf o'r brwydrau erch,
Mae tlysau arwriaeth yn harddu'm gwisg
Ond ple mae castelli'm serch ?"

A mi'n ymbilio'n daer fel hyn
Dihangodd llef o'r castell gwyn,
Llef athrist megis tonnau'r mor,
Neu fiwsig pruddaidd offerynol gor ;
Ac yn y llef bereraidd brudd
'Roedd acen ddigamsyniol ffydd ;
Y ffydd a wyr fod tonnau'r mor
Yn gwrandaw llais yr Arglwydd Ior,
Y ffydd sy'n gweld blinderau oes
Yn troi "yn ganu wrth y groes."

Daeth rhyw ddiddanwch o fy mron,
Ddiddanwch pur fy maboed llon.
Tra'n gwrando'r dyner ffyddiog gri
Diflanodd fy mhryderon i.

"Myfi yw ysbryd y castell gwyn
Sy'n eistedd ar orsedd y tawel fryn,
Yn gwylio camrau dynoliaeth brudd
A'i chwynfan diorffen am dorriad dydd.
Gwelais ganrifoedd mewn crud o hedd,
A gwelais eu terfyn mewn dinod fedd.
Gwelais filoedd o'th dylwyth di
Fel llong ddigadben ym merw'r lli ;
Gwelais eu blagur fel harddaf ros
A'u harwyl alaethus fel duaf nos ;
Cychwyn dan wenau gobeithion mad
Trengu yn aberth i lengoedd brad"

" Gwelais eraill o ddewraf fryd,
(Cewri yn unig all goncro'r byd)
Yn cyrraedd castell yr heddwch pur
Ar waethaf byddinoedd trais a chur.
'Roedd creithiau ar ael y concwerwyr hyn,
(Craith yw dilysnodd eneidiau gwyn)
Gwyn ydyw tonnau urddasol yr aig
Yn dychwel yn drochion o wyneb y graig,

Gwynfyd eu cyfran dragwyddol mwy
Cyfod, fab siomiant a dilyn hwy."
" Wrth rodio'n ddewr y llwybrau hyn
Cei eto feddu'r castell gwyn
A'th ddeuai gynt fel enfys dlos ;
Cei weld breuddwydion tecaf nos,
A gobaith gwynaf ganol dydd
Yn ffeithiau ar hyd llwybrau ffydd."

" Blagura addysg bore'th oes
Pan ddysgi rodio llwybrau moes,
Bydd bellach yn llawforwyn fyw
I'th arwain i chwareli Duw,
Lle mae'r sylweddau goreu gaed
I godi'th gastell ar ei draed ;
Daw mel o 'sgerbwd rhyfel cas
'Rol puro'th nwyd a dwyfol ras.
Mae'th enw'n hysbys ymhob gwlad
Fel dewraf filwr yn y gad,
A'th dlysau hardd sy'n braw i mi
Nad llwfr mewn ymgyrch oeddit ti
Mae angen y rhinweddau hyn
I etifeddu'r castell gwyn."

"Druenus ddyn, pa hyd y ceisir nef
I'th enaid ar hyd llwybrau llwm y llawr!
Rhaid ceisio'n gyntaf "Ei gyfiawnder Ef,"
Yn nheyrnas Dduw mae'n fythol dorriad
gwawr."

"Ond," meddai fy nghalon lwythog,
"Ysbryd y castell gwyn,
A'i onid *cyfiawnder* a'm galwodd I,
I wisgo yr arfau hyn?"

"Ai onid er mwyn *cyfiawnder*
Y rhuai y gynnau croch,
Y gwelwyd cyfandir teca'r byd
Gan waedlif yn gwrido'n goch?"

"Fy mhlentyn," atebai'r ysbryd,
"Ffolineb yw hyn i gyd,
Fe guddir pechodau erchylla'r oes
Dan gochl cyfiawnder byd."

"Cyfiawnder! medd Phariseaid,
Mewn ymbil wrth ddrws y nef,
Tra'u bywyd pwdwr yn cadw draw
Ddydd Ei gyfiawnder Ef.

"Cyfiawnder! medd offeiriadon,
Cyfiawnder, yw eu cri ddidaw
Fra'n codi golygon rhag gweled brawd
Ynghanol y lladron draw.

"Cyfiawnder! Ai enw'n unig
Ar hawl y cryf ydyw hwn,
I sugno maeth o galon ei frawd
A'i lwytho a llethol bwn ?

"Ai adlun o'r unrhyw Gyfiawnder
Yw'r ffurfiau dolurus fyrdd
Sy'n gofyn elusen wrth ddrws y plas
A chardod hyd gonglau'r ffyrdd

"Ai dyma yw gair y cyfnod
Am arfer anghenfil glwth
Yn byw ei hunan mewn palas braf
A'r miloedd heb feddu bwth ?

"Cyfiawnder! Ai dyna ystyr
Y gruddiau llwydion a llaith
A'u cri megis ochain eneidiau coll
Am ddim ond "diwrnod o waith ?"

"Cyfiawnder! Ai dyna'r esboniad
Ar hanes yr eneth wiw
A werthodd ei henaid ar heol y dref
Er mwyn i'r corff gael byw ?

"Cyfiawnder! medd gwerin wallgof,
Cyfiawnder! medd teyrn o'i sedd
A'r ddwyblaid feddw ar gyfiawnder byd
A ruthrant i garn y cledd.

"O ynfyd blentyn dynoliaeth,
Plentyn y gwarth a'r siom,
Mae'r galon fawryga gyfiawnder byd
Yn byw ar gynhyrchion tom.

"Gad lennyrch y termau gweigion
A themlau hygoeledd wyw,
Ehed o gyffiniau allorau brad,
Ac esgyn i Fynydd Duw.

"Yno, mae'r chwarel sanctaidd
Yno, mae'r meini drud,
Yno mae cestyll tragwyddol hedd,
Yno mae'n wyn dy fyd.

"Yno ni threiddia lladron
Gwyfyn na phrif na rhwd,
Yno mae cenlli y gwynfyd pur
Yn llifo'n dragwyddol ffrwd.

"Cei weled y wawr yn torri
Ar d' enaid o'r mynydd mud,
A theimlo diddanwch y Dwyfol Fab,
Diddanwch na fedd y byd.

"Yno dan wlith y nefoedd
Uwch terfysg a blinder llawr,
Cei glywed am ffyrdd Ei gyfiawnder Ef
O enau yr Athro mawr.

"Gwynfyd y Dwyfol Gyfiawnder,
Gwynfyd y sanctaidd oes,
Gwynfyd na lygrir gan rith y byd
Na'i ffugiol a'i ddirin foes,

Cyfiawnder, yw sylfaen gwynfyd
Cyfiawnder yw gorsedd Nef,
Cyfiawnder a chariad yw hanfod Duw
A grym Ei lywodraeth Ef.

"Addfwynder, trugaredd a phurdeb
Yw nodau cyfiawnder Duw,
Dilyn y llwybr dan wenau'r nef
A diogel yw'th gastell gwiw."

Distawodd llais yr ysbryd gyda hyn,
Ond eco'r genadwri lanwai'r fro;
Sancteiddrwydd mwyn amdoai'r castell gwyn,
Tra hen adnodau lithrent drwy fy ngo'.

Arweinient fi fel seren Bethlehem
  At grud y Ceidwad yn y preseb tlawd,
A chlywais gân angylion Salem Wen,
  Yn son am "Dduw'n ymddanges yn y
      cnawd."

O, engyl Gwynfa, nodau pur eich cân
  Sydd megis balm ar f' enaid clwyfus trist,
Gwahanglwyfus ydwyf, ond mae "byd yn
      lan,"
  Yn disgyn fyth dros wefus Iesu Grist.

'Rol gadael bro'r tragwyddol "newydd da,"
  Disgynodd llais o'r mynydd ar fy nghlyw,
Mudanrwydd oedd yn deyrn yn nheyrnas
      pla,
  Distawa llais y byd pan sieryd Duw.

III.

'Rwyf heddyw'n henafgwr penllwyd,
  Gwargam a byr fy ngham,
Yn meddu ar brofiad y Salmydd gynt
  A phrofiad fel profiad fy mam.

"Ti wyt fy nghraig a'm castell,"
  Beth yw castelli'r byd
Yn ymyl castell cyfiawnder Duw
  Cyfiawnder sy'n wynfyd i gyd!

Cofiaf hen gestyll cedyrn
Fu'n gyrchfan eneidiau blin,
Maent heddyw'n garneddau ar lawr y glyn
Heb neb yno'n plygu glin.

Enwadaeth, hen gestyll Cymry,
Ofergeel, hen gastell ei phlant,
Maent heddyw yn suddo i'r hyn a fu
Eu gogwydd sydd tua'r pant.

Am gyfnod bu militariaeth
Yn frenin y castyll du,
Ond heddyw mae 'gaerau halog ef
Yn lludw dan draed y llu.

Mammon, eureg ei dyrrau,
A'i filfyrdd allorau drud,
Welir yn scyrrion ar gyrrion gwawd
Yn ddrewdod yn ffroen y byd.

Cofiaf am gastell arall
Bum ynddo fynyddoedd maith,
Ond angel o gastell Cyfiawnder Duw
A ddrylliodd ei gelloedd llaith.

"Trugaredd" oedd enw'r angel,
(Lle cawsai ef enw gwell)
Faluriodd byrth "castell cryf arfog" hyf
Gan ddatod cloion fy nghell!

Mae castell arall yn aros,
Ond dibwys yw hwn i ffydd,
Fe gipiwyd y lluman oddiar ei dwr
Fore y Trydydd dydd.

Canaf yn swn y cwympiadau
Folawd i Frenin Nef,
"'Rwyf heddyw'n etifedd fy nghastell gwiw
Trwy rin "Ei Gyfiawnder Ef."

PERERIN
(Sef Mr. Cynan Jones, Gaiman).